# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yn anelu at fynd i'r afael â'r 6 nod llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol 2018-23. Byddai fframwaith yn seiliedig ar lefydd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Mynd i'r afael ag Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Gwella Llesiant Cymunedol a Thaclo Tlodi yn Aberteifi |
| **Cadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

<table>
<tr><th colspan="4">Aelodaeth y Grŵp Prosiect (Yr enwau mewn print trwm oedd yn bresennol yn y cyfarfod)</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Cyngor Sir Ceredigion</td><td rowspan="2">Cyng Elaine Evans, Llyr Hughes, Non Davies, Meleri Richards, Mari Hopkins, Rob Starr, Carys Owens, Cerys Purches-Phillips, Martin Gillard, Catrin George, Catrin Cond, Alison Heal, Dr Sarah Groves Phillips, Carwyn Young, Connor Cook, Bethan James, Robin Stanley, Rob Star, Emily Edwards, Rhiannon John, Cathryn Morgan, Melanie Walters, Rhidian Harries, Greg Jones<br><u>Tîm Partneriaethau</u>: Timothy Bray, Sara Dafydd, Lynne Walters, Anwen Thomas, Teleri Elias, Steffan Gruffydd</td><td>Tai Wales & West</td><td>Rhiannon Ling,<br>Elizabeth Morgan</td></tr>
<tr><td>CAVO</td><td>Chesca Ross<br>Callum Jones</td></tr>
</table>

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Vicki Howell-Williams, Sue John, Terri-Ann Patrick, Jackson Reynolds, Megan Harris, Jan Batty, Geinor Jones, Suzanne Griffiths, Rhian Rees, Beth Cossins | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | William Bowen, Wayne Thomas, Ritchie Felton | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies, Peter Frost, Sarah Coakham |
| Barcud Ceredigion | Catrin Owen, Sue Thomas | Menter a Busnes | Ann Owen |
| Cyngor ar Bopeth Ceredigion | Glynis Llewelyn, Juliet Morris, Sue Lewis | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Vikki Butler, Roxanne Treacy, Mandy Williams |
| PRTA Green Dragon Community Transport | Caroline Wilson | Cyfeillion Ysbyty Aberteifi | Sue Lewis |
| Jig-so | Alison Sinclair, Sarah Hollingbery-Simpson | Ardal 43 | Rachael Eagles |
| Dŵr Cymru | Sion Griffiths | | |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 24.10.24**

**14.1 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawydd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod.

**Nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:** *Cathryn Morgan, Sarah Evans, Cllr Elaine Evans, Martin Gillard, Juliet Morris, Caitlin Theodorou, Matt Hatter.*

**14.2 Ceredigion Oed Gyfeillgar – Diweddariad ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn 2024, Syniadau ar gyfer Recriwtio yn Ne Ceredigion a Gwybodaeth am y Grant Cymunedau Oed Gyfeillgar**

Cyflwynodd Melanie Walters (MW) ddiweddariad ar Ddiwrnod Rhynglwadol Pobl Hŷn 2024, syniadau ar gyfer recriwtio yn Ne Ceredigion a gwybodaeth am y Grant Cymunedau sy'n Oed Gyfeillgar. Mae'r cais wedi'i gymeradwyo, ac mae Ceredigion wedi

derbyn dynodiad swyddogol 'Ceredigion sy'n Oed gyfeillgar'. Mae Fforwm wedi'i sefydlu ar gyfer y gymuned a fydd yn cyfarfod bob chwarter, gyda'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 28 Tachwedd. Prif ffocws y cyfarfod nesaf fydd trafnidiaeth. Mae cyfle ar hyn o bryd i wneud cais am grant drwy CAVO ar gyfer grwpiau cymunedol sy'n ceisio cyllid o hyd at £500 ar gyfer prosiectau sydd â'r nod o wella elfennau oed-gyfeillgar - Cronfa Ceredigion Oed Gyfeillgar - Cysylltu Ceredigion. Yn dilyn digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, mae 12 trigolyn ychwanegol wedi mynegi diddordeb mewn bod yn gynrychiolwyr dinasyddion, sy'n gyfanswm o 21 cynrychiolwr. Mae gwefan Oed Gyfeillgar Ceredigion yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, lle gellir cyrchu fersiwn gychwynnol y cyfeiriadur. Bydd yr ail fersiwn yn cael ei huwchlwytho'n fuan. Gofynnwyd i bartneriaid gysylltu â MW os ydynt yn ymwybodol o unrhyw grwpiau o diddordeb sy'n awyddus i fod yn rhan o'r Fforwm Oed-gyfeillgar.

**14.3 Diweddariad Canolfan Llesiant Aberteifi**

Cyflwynodd Carwyn Young (CY) ddiweddariad ar Ganolfan Llesiant Aberteifi. Penderfynwyd ddefnyddio safle'r pwll nofio presennol yn Aberteifi fel lleoliad ar gyfer Canolfan Llesiant Aberteifi. Roedd hygyrchedd yn ystyriaeth sylfaenol, gan fod y lleoliad hwn yng nghanol y dref. Mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Craffu Cyngor Sir Ceredigion wedi ymweld a'r safle, ac fe ddilynwyd yr holl brosesau democrataidd. Nododd CY fod meini prawf cynllun cyllido Llywodraeth Cymru (LlC) wedi newid rhywfaint, a bellach, mae mwy o ffocws ar y gwasanaethau a ddarperir yn hytrach na datblygiad cyfleusterau. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Tîm wrthi'n paratoi cyflwyniad cynlluniau ffurfiol i LlC. Mae sgyrsiau gyda sefydliadau hefyd ar y gweill i benderfynu pa wasanaethau y gellid eu darparu yn y Ganolfan. Awgrymodd HLL y gellid defnyddio'r Grŵp Llesiant yn Aberteifi i hwyluso'r broses o gysylltu â'r gymuned, a darparu arweiniad ar ymddangosiad dymunol y safle. Cynhaliwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r pwll nofio, ac a fyddai'r Ganolfan Llesiant yn ei ddefnyddio. Bydd y camau nesaf yn cynnwys cyhoeddi cynnig drafft yn manylu ar ddyluniad a nodweddion y Ganolfan Llesiant arfaethedig, a fydd yn rhoi cyfle i aelodau'r gymuned adolygu a rhoi adborth ar y prosiect.

**14.4 Sesiwn Gweithdy: Dull Systemau Cyfan Rhanbarthol i Bwysau Iach - Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda**

Dyrannwyd y rhan fwyaf o'r sesiwn ar gyfer gweithdy a gynhaliwyd gan Dîm Iechyd y Cyhoedd ar y Dull Systemau Cyfan Rhanbarthol (DSC) i Bwysau Iach. Mae'r Dull System Gyfan yn annog ffordd wahanol o feddwl a gweithio gan weld y system yn ei chyfanrwydd. Trwy ddeall sut mae'r system yn gweithredu, a'r gwahanol elfennau ohoni, y nod yw adnabod y cyfleoedd gorau am newid a dod i gytundeb ynghylch sut y gellir cyflawni awyrgylch o bwysau iach trwy weithio a gweithredu'n wahanol. I wneud hyn, mae Tîm DSC yn ceisio dod â phartneriaid ynghyd sydd â rôl a diddordeb yn y gwaith hwn, gan gynnwys y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector, a chymunedau.

Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r gweithdai Mapio System gyfranogol a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2023 a oedd yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o achosion pwysau gormodol a'n system leol, rhoddwyd cyfle i'r Grŵp Cyflawni flaenoriaethu wyth amcan a

| |
|---|
| ddaeth i'r amlwg fel pynciau blaenoriaeth a meysydd ffocws. Bydd y canlyniadau, gan gynnwys unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg, yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar 2 Rhagfyr. Yn dilyn y sesiynau gweithdy, mae Tîm DSC yn bwriadu parhau i gydweithio â'r BGC, gyda chynlluniau i ymgysylltu â'r gymuned a nodi asedau lleol. |
| **Cyfarfod nesaf: 15 Ionawr 2024, 10:00-12:00** |
| **Cofnod Cryno o'r Camau Gweithredu** |
| **1.)** ***Parhau:*** Trefnu fod Ann Owen o Bartnerieth Bwyd Ceredigion yn mynychu cyfarfod sydd ar y gweill i roi diweddariad. |
| **2.)** ***Parhau:*** Y Tîm Partneriaethau i ddosbarthu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Cyflawni (gan gynnwys yr Organogram) i'r aelodau. |
| **3.)** ***Parhau:*** Pob aelod i rannu gwybodaeth gyda'r tîm Partneriaethau am unrhyw ddigwyddiadau / gweithgareddau lleol a fyddai'n addas i'r BGC eu hyrwyddo. |
| **4.)** ***Parhau:*** MW i rannu'r ddolen i'r teclyn 'walkability' ac i rannu'r teclyn hygyrchedd unwaith y bydd wedi'i gwblhau. |
| **5.)** ***Cwblhawyd:*** MW i ddychwelyd i roi cyflwyniad arall ar y wybodaeth Gwaelodlin sy'n Oed Gyfeillgar. |
| **6.)** ***Parhau:*** MW i rannu gwybodaeth gyda LW ar yr ardaloedd yng Ngheredigion sydd wedi'u rhannu'n 41 ardal ddaearyddol. |
| **7.)** ***Parhau:*** CG i rannu manylion ariannu ar ôl Rhagfyr 2024 gydag aelodau'r grŵp hwn. |
| **8.)** ***Parhau:*** Partneriaid i gysylltu â CAVO i rannu unrhyw wybodaeth, fanylion am fentrau lles y gaeaf. |
| **9.)** ***Parhau:*** HLL, CY a'r Tîm Partneriaethau i drafod amseriad a chynnwys grŵp ffocws partner posibl i gefnogi'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer canolfan llesiant Aberteifi. |

DRAFT